



Marc

Mae efengyl Marc, yn yr un ffordd â'r efengylau eraill i gyd, yn adrodd hanes bywyd a gweinidogaeth Iesu Grist. Mae Efengyl Marc yn rhoi pwyslais neilltuol ar fod yn ddisgybl ac ar gerdded llwybr y groes yn ôl troed Iesu. Yn drawiadol nid oes ganddo straeon am enedigaeth Iesu (mae'n dechrau'n swta gyda neges Iwan Fedyddiwr), na storïau go iawn am yr atgyfodiad – gan fod y gwagedd, wedi cyrraedd y bedd yn ei ganfod yn wag, a gofynnir iddynt i fynd a chyhoeddi atgyfodiad Iesu i'r disgyblion ond yn lle gwneud hynny maent yn ffoi mewn ofn.

Mae gan Efengyl Marc sawl diwedd gwahanol. Mae'r llawysgrif wreiddiol yn gorffen ar 16.8 ond mae llawysgrifau diweddarach yn darparu diwedd ychwanegol byrrach a diwedd ychwanegol hwy. Mae eu harddull mor wahanol, fodd bynnag, fel ei bod yn ymddangos ei bod yn annhebygol eu bod yn wreiddiol.



Pa mor hir wnaiff o gymryd?

Amser darllen: 1 ½ awr
Yn brin o amser? Darllenwch yn unig
1.1-20; 4.1-41; 8.1-9.8;
15.21-16.8



Dosbarth

Efengyl – adroddiadau sy'n dweud stori bywyd Iesu Grist a'r newyddion da y daeth ef i'w gyhoeddi.



Unrhyw beth anodd?

Ddim mewn gwirionedd, y rhan anoddaf yw'r diwedd glo a'r cwestiwn a allai Marc fwriadu gadael yr Efengyl gyda'r stori o'r gwagedd yn ffoi mewn ofn.



Dyfyniadau i ysbrydoli

¹⁴Wedi i Iwan gael ei garcharu daeth Iesu i Galilea gan gyhoeddi Efengyl Duw a dweud: ¹⁵"Y mae'r amser wedi ei gyflawni ac y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifeirwch a chredwch yr Efengyl!" (Marc 1.14-15)

²⁸Daeth un o'r ysgrifenyddion ato, wedi eu clywed yn dadlau, ac yn gweld ei fod wedi eu hateb yn dda, a gofynnodd iddo "Prun yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?" ²⁹Atebodd Iesu, "Y cyntaf yw, 'Gwranddo, O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, ³⁰a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' ³¹Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain". (Marc 12.28-31)

"...a phwy bynnag sydd am fod yn flaenaf yn eich plith, rhaid iddo fod yn gaethwas i bawb. ⁴⁵Oherwydd mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer." (Marc 10.44-45)



Ynglŷn â'r Awdur

Mae'r Efengyl hon, yr un fath â'r tair arall yn anhysbys. Dim ond yn ddiweddarach yn y traddodiad Cristnogol y cysylltwyd Marc â hi. Mae rhai'n credu mai Marc yr efenglydd oedd loan Marc, cefnder Barnabas (Actau 12.12; 25; a 15.37). Mae rhai hefyd yn credu mai'r bachgen ifanc a enwir ym Marc 14.51 a ffodd yn noeth o'r digwyddiad pan arestiwyd Iesu oedd o.

Mae hanesydd yr eglwys fore, Eusebiws, yn credu fod Pedr wedi cyfarfod â Marc wrth iddo deithio o gael ei garcharu yn Jwdea i Rufain, a'i fod wedi rhoi ei dystiolaeth fel llygad dyst i Marc a gofnododd y cyfan.

Mae llawer o ysgolheigion yn credu, yn ogystal â'i ddeunydd ei hun, fod gan Marc ddogfen ddamcaniaethol o'i flaen maent yn ei alw'n Q, a oedd yn cynnwys efallai'r traddodiadau cynharaf am Iesu, ei fywyd a'i weinidogaeth.

Beth wyddom ni amdano?

Mae popeth wyddom ni am awdur Marc yn dod o'r traddodiad Cristnogol, a'r dyfalu sy'n dilyn. Gall traddodiad yr eglwys fore fod yn wir ond mae'n amhosibl ei brofi.



Ynglŷn â'r cyfnod

Byddai'r rhan fwyaf o ysgolheigion yn dyddio Efengyl Marc naill ai cyn neu ar ôl cwmpw Jerwsalem yn 70 Oed Crist.

Beth oedd pobl yn ei deimlo?

Os yw dyddiad awgrymedig Marc yn gywir yna ysgrifennwyd Efengyl Marc mewn cyfnod o gythrwfl byd eang. Cred rhai fod yr Efengyl, fwy na thebyg, wedi ei chwblhau yn Rhufain. Os felly, yna efallai fod y tonnau a grëwyd gan y Rhyfel Iddewig (66-73 Oed Crist) wedi eu teimlo'n llai cryf i gynulleidfa Marc er y byddai'r anhrefn yn Rhufain yn dilyn hunanladdiad yr Ymherodr Nero yn 68 Oed Crist wedi ei deimlo'n gryf iawn.

Llyfrau eraill wedi'u gosod tua'r cyfnod yma

A siarad yn gyffredinol, Mathew a Luc (er y credir eu bod wedi eu hysgrifennu'n ddiweddarach na Marc), ac amrywiaeth o lythyrau'r Testament Newydd (na chawsant eu hysgrifennu gan Paul, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt ychydig ynghynt na hyn), gan gynnwys o bosibl Hebreaid, Iago, 1 Pedr a Jwdas.

Y gwir yw fod dyddio'r Testament Newydd mor ddychrynlyd o amheus ac mor anodd ei brofi nes ei fod yn anodd bod yn hyderus am hyn.



Pa fath o Lyfr ydy o?

Mae'n Efengyl – stori am fywyd Iesu gyda'r bwriad o berswadio ei ddarllenwyr pwy oedd o.

Mae'n ymddangos mai pwrpas Marc oedd cyfathrebu grym pwy oedd Iesu mewn arddull mor fyw ag oedd bosibl fel y gallai cynulleidfa Marc ddeall brys a grym yr alwad i 'ddod a dilyn'.



Sut cafodd ei strwythuro?

1.1	Y Dechrau
1.2-4.34	Cyflwyniad i Weinidogaeth Iesu
4.35-8.25	'Dewch a'm dilyn i' – her bod yn ddisgybl.
8.26-10.52	Ffordd y groes – cost bod yn ddisgybl
11.1-16.8	Wythnos olaf bywyd Iesu.



Cadwch lygad am...

Un o hoff eiriau Marc yw 'ar unwaith' neu sut bynnag y caiff ei gyfieithu yn eich fersiwn chi. Gwiriwch Marc 1.12 a sylwch ar ba air a ddefnyddir - yn ebrwydd ddefnyddir yn yr hen gyfieithiad - ac yna chwiliwch amdano wrth i chi ddarllen yr Efengyl.

Thema arall, i Marc, yw bod yn ddisgybl. Beth yw eich barn chi am y disgyblion yn Efengyl Marc, fydech chi wedi gwneud yn well?

O bennod 8 ymlaen mae cysgod y groes yn dechrau syrthio'n gryf dros fywyd Iesu, chwiliwch am hyn a sylwch sut mae'n gwneud i chi deimlo (os unrhyw beth!)



Beth allai hyn ei olygu i mi?

Mae'n ymddangos mai un o negeseuon Marc yw codi'r cwestiwn beth mae bod yn ddisgybl da i Iesu yn ei olygu? Myfyriwch ar hyn wrth i chi ddarllen a chwiliwch i weld a fedrwyd chi ganfod cynghorion ar sut i fod yn ddisgybl da.



Cwestiynau grŵp trafod

- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr roeddech chi'n arbennig o hoff ohono neu wnaeth eich ysbrydoli?
- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr nad oeddech yn ei hoffi neu oedd yn eich poeni?
- Beth oeddech *chi'n* ei gredu roedd y llyfr yn ei drafod?
- Siaradwch am bortread Marc o'r disgyblion. Ydych chi'n credu ei fod yn deg gyda nhw? Pa un, os unrhyw un, ydych chi'n teimlo'r berthynas agosaf gydag o?
- Beth wnaethoch chi ddysgu am ganlyn Iesu o ddarllen Efengyl Marc?
- Beth yw eich barn am ddiweddglo Marc? Ydych chi'n credu y dylai ddod i ben yn 16.8 neu a fyddai'n well gennych chi ddiweddglo arall?
- Wnaethoch chi ddarllen unrhyw beth yn y llyfr wnaeth eich cyffwrdd, ehangu eich ffydd neu wneud i chi feddwl yn ddyfnach am eich bywyd a sut rydych yn ei fyw?



Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod [#clwblyfrauibeibl](#) a tag [@cymybeibl](#).

Dod â'r Beibl yn **fyw**

B Cymdeithas
y Beibl